



GAEC 6: Pridd a Deunydd Organig – Eu Diogelu

Ionawr 2018

Amcan y safonau hyn yw diogelu pridd. Mae'r manteision amgylcheddol a ddaw o gynnal cynefinoedd a bioamrywiaeth yn fater o bwys cenedlaethol.

Mae'r fferm a natur yn elwa o gael amrywiaeth dda ac iach o lystyfiant ac mae adeiladwaith a chyflwr y pridd ar eu mantais hefyd. Mae gwaith llosgi o bryd i'w gilydd, o'i gynllunio a'i reoli'n dda, yn llesol i'r fferm, adar hela, cadwraeth natur a'r amgylchedd ehangach. Gall llosgi diofal ar y llaw arall niweidio tir pori, cynefinoedd a nodweddion hanesyddol gwerthfawr yn ogystal ag effeithio ar ansawdd dŵr a phridd.

Rhaid cynnal arfarniad o dan Reoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 (EIA) ar dir led-naturiol cyn cynnal unrhyw brosiectau i droi tir yn dir ffermio dwys. Byddwch yn torri'r rheoliad trwy fwrw ymlaen â phrosiect o'r fath heb gael caniatâd EIA neu heb gynnal arfarniad sy'n dangos na chaiff eich prosiect effaith arwyddocaol.

Prif ofynion

Llosgi Grug, Porfa a Gweddillion Cnydau

- Peidiwch â llosgi gweddillion cnydau ar dir amaethyddol, heblaw i ddifa plaon. Rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru. Cofiwch gadw tystiolaeth o'r ddau.
- Rhaid paratoi cynllun rheoli ar gyfer llosgi grug a phorfa a rhaid i'r gwaith llosgi gydymffurfio â'r cynllun hwnnw.
- Cyn dechrau llosgi, a gydol y gwaith llosgi, cymerwch bob cam rhesymol i ddiogelu eiddo cyffiniol rhag difrod a niwed. Peidiwch â pheryglu defnyddwyr y ffyrdd na'r cyhoedd.
- Gofalwch fod digon o bobl ac offer gennych i reoli'r tân tan y bydd yn diffodd.
- Llosgwch y grug a'r borfa o fewn y cyfnod a ganiateir, a dim ond yn ystod y dydd. Y cyfnodau yw:

- 1 Hydref – 31 Mawrth ar dir uchel (sef yr Ardaloedd tan Anfantais Fawr).
- 1 Tachwedd – 15 Mawrth bobman arall.

- Cydymffurfwch â gofynion a chyfyngiadau cyfreithiol cenedlaethol ar gyfer llosgi grug a phorfa, ac ag unrhyw is-ddeddfau.

Rheoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol (EIA) (Amaethyddiaeth)

- Gofynnwch i Lywodraeth Cymru am ganiatâd (penderfyniad sgrinio) i wella'r tir. Mae'r tir yn cael ei ystyried yn lled-naturiol os ydy'r gyfran sy'n rhygwellt/ meillion gwyn yn llai na 25%.
- Cydymffurfwch â phenderfyniadau sgrinio a chaniatadau'r EIA.
- Cydymffurfwch â hysbysiadau gorfodi EIA.

Rheoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999

- Peidiwch â chynnal gwaith coedwigo ar dir amaethyddol neu brosiect datgoedwigo ar goetir heb ganiatâd Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Ufuddhewch i rybuddion atal, caniatáu, gorfodi ac adfer gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Archwiliadau Maes

- I sicrhau bod gweddillion cnydau â'r yn cael eu llosgi er lles iechyd planhigion, am resymau addysgol ac ymchwil (gyda chaniatâd Llywodraeth Cymru) neu i gael gwared ar bentyrrau gwellt neu fêls wedi torri.
- I sicrhau bod gennych Gynllun Rheoli ar gyfer llosgi grug a phorfa.
- I sicrhau'ch bod yn llosgi'r grug a phorfa yn y cyfnod a ganiateir.
- I sicrhau bod penderfyniadau sgrinio a chaniatadau'r EIA wedi'u rhoi ar gyfer cynnal gwelliannau neu i gynnal gweithgareddau ar dir heb ei drin neu led-naturiol.
- I sicrhau y cedwir at rybuddion atal, caniatáu, gorfodi ac adfer.

Arfer Da Llosgi Grug, Porfa a Gweddillion Cnydau

- Lluniwch raglen ar gyfer y gwaith llosgi hanfodol a'i drefnu ar sail cylchdro – dylech ei chynnwys yn y Cynllun Rheoli Llosgi.
- Rhowch wybod i'ch cymdogion am eich bwriad i losgi ac i'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Rhowch wybod iddynt pan fydd y tân wedi diffodd.

- Peidiwch â llosgi os ydy'r tywydd yn anaddas ichi allu llosgi'n ddiogel, gan gynnwys adeg tywydd sych. Peidiwch â llosgi os ydy'r gwynt yn rhy gryf neu os ydy cyfeiriad y gwynt yn gyfnewidiol. Os ydy'r amodau'n gwaethygu, dylech ei ddiffodd ar unwaith.
- Anelwch at gael 'tân oer' sy'n llosgi canopi llwyni bach ond sy'n gadael cyfran o'r pren ar ôl, heb losgi'r mwsogl na dinoethi'r pridd.
- Rheolwch ochrau'r tân gan gadw'r lled a dymunir, gan adael i ben blaen y tân losgi i'r cyfeiriad cywir a rheoli o leiaf un ochr â rhwystr tân. Dewiswch fylchau naturiol yn y llystyfiant lle medrwch, neu os nad oes bylchau o'r fath, crëwch fylchau 2½ gwaith hyd disgwylidig y fflamau i rwystro'r tân rhag lledaenu.
- Peidiwch â llosgi ar safleoedd cadwraeth (e.e. SoDdGA) neu Henebion heb ganiatâd yr awdurdod priodol.

Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA)

- Os nad ydych yn siŵr a yw Rheoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) yn effeithio ar eich prosiect/gweithgarwch, yna holwch naill ai Llywodraeth Cymru neu ewch i <http://llyw.cymru/> Rheoliadau EIA.
- Os nad ydych yn siŵr a yw Rheoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol (Coedwigaeth) (Cymru a Lloegr) 1999 yn effeithio ar eich prosiect/ gweithgaredd, yna holwch Cyfoeth Naturiol Cymru.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Llywodraeth Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru

Gweler y daflen 'Cysylltiadau Defnyddiol' yn y pecyn hwn.